BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION CYFARFOD MEDI 17, 2024

Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Rhydymain
Nos Fawrth, Medi 17, 2024 am 7:30 o'r gloch.

www.cyngorllanfachreth.cymru

Presennol Cynghorwyr Karen Goswell, Emlyn Roberts, Robin Jones, Peredur Jenkins, Rhun Prys Jones a Llion Williams. Hefyd Delyth Lloyd Griffiths a Henry M. Edwards.

1. Croeso'r Cadeirydd. Yn absenoldeb y Cadeirydd cadeirwyd y cyfarfod gan Robin Jones (Is-Gadeirydd).

Croesawyd pawb i'r cyfarfod.

2. Ymddiheuriadau: Gerallt Griffith (Cadeirydd) a Meurig Ashton.

3. Datgan diddordeb.

Roedd Emlyn Roberts a Peredur Jenkins yn datgan diddordeb ynglŷn â chais cynllunio. Eitem 7.ch.

Roedd Gerallt Griffith, Peredur Jenkins a Llion Williams yn datgan diddordeb ynglŷn â chais cynllunio. Eitem 7.g.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mehefin 18, 2024.

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

5 Materion yn codi o'r cofnodion Mehefin 18 , 2024.

Eitem 8.b. Llythyr ateb (24/6/2024) oddi wrth y Parc ynglŷn â chais cynllunio NP5/54/136H. Maent yn rhoi gwybod mae'r ymgeisydd yn gofyn am ganiatad i amnewid ychydig o'r manylion y cais gwreiddiol, e.e. yr edrychiad allannol, gan gynnwys cymysgydd o wal cerrig a phren a'r edrychiad allannol. Amgáu mae ffurflen gais sydd yn amlinellu y newiadau i gyd. Does gan yr Awdurdod dim gwrthwynebiad i'r newiadau yma.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau am sylw.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (28/6/2024).

Eitem 11.b. Cafwyd wybod gan Delyth mae Priffyrdd, Cyngor Gwynedd am argymell rhoi arwydd 40mya yn lle yr arwydd ar y ffordd, a rhoi rampiau bob ochr i'r arwydd.

6. Gohebiaeth

a. Llythyr (2/7/2024) oddi wrth Un Llais Cymru yn cynnwys cyrsiau hyfforddiant at fisoedd Gorffennaf, Awst a Medi.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b. Llythyr (10/7/2024) oddi wrth Gwasanaeth Polisi Cynllunio, Tirwedd a Natur, Cyngor Gwynedd yn galw am safleoedd i gael eu cynnwys yn Gynllun Datblygu Lleol yn ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd (ddim yn ardal Parc Cenedlaethol Eryri).

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

c. Llythyr (10/7/2024) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd Cyfarfod Pwyllgor Meirionnydd ar 17/7/2024 am 7.00yh yn y Llyfrgell Rhydd, Dolgellau. Amgáu mae Agenda a Chofnodion Cyfarfod Pwyllgor Meirionnydd 8/5/2024.

Llythyr (23 7/2024) oddi wrth Un Llais Cymru gyda chyflwyniad rhoddwyd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn y cyfarfod.

Anfonwyd y llythyrau i'r aelodau.

ch. Llythyr (23/7/2024) oddi wrth Ymgysylltu, Cyngor Gwynedd yn rhoi cyfle i gymryd rhan yn ymgynghoriad i ymestyn Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus ar gyfer rheoli cŵn. Amgáu mae linc i holiadur.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

d. Llythyr (13/8/2024) oddi wrth Gwasanaethau Democratiaeth ac Iaith, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae gan Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd yr hawl i osod arwydd uniaith Gymraeg 'Croeso i (enw'r dref)'.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

dd. Llythyr (20/8/2024) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am gau ffordd dros dro ger Pont Clywedog i drafnidiaeth. Bydd y gwaharddiad o Dachwedd 4, 2024 am 1 diwrnod ond nid hwy na 3 diwrnod i BT Openreach gwneud gwaith ar geblau.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

e. Llythyr (2/9/2024) oddi wrth Spencer Pughe Associates Ltd, Ymgynghorydd Pensaerniol. Maent yn rhoi gwybod mae cais cynllunio at wneud gwaith allanol i Neuadd Llanfachreth wedi ei roi i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

f. Llythyr (5/9/2024) oddi wrth Un Llais Cymru yn cynnwys dogfen 'Canllaw i reoli prosesau recriwtio, sefydlu a chadw clercod'.

Anfonwyd y ddogfen ymlaen i'r aelodau.

g. Llythyr (7/9/2024) oddi wrth Gwasanaeth Polisi Cynllunio, Cyngor Gwynedd yn cadarnhau cyfarwyddyd Erthygl 4 (ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd). Nid yw'n berthnasol i ardal tu mewn Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Anfonwyd y ddogfen ymlaen i'r aelodau.

h. Llythyr (21/9/2024) oddi wrth Un Llais Cymru yn cynnwys dogfen ar 'Polisiau a Grymoedd' cyngorau.

Anfonwyd y ddogfen ymlaen i'r aelodau.

i. Llythyr (10/9/2024) oddi wrth Pen Solar cyf, Clynnogfawr yn rhoi gwybod mae grant o hyd at £25,000 ar gael gan Sefydliad Cymunedol Cymru i osod paneli solar a batris storio ar neuaddau pentref neu adeiladau cymunedol. Gall Pen Solar rhoi arweiniad i wneud y gwaith. Dyddiad cau ar ddiwedd mis Medi.

Anfonwyd y ddogfen ymlaen i'r aelodau.

j. Llythyr (10/9/2024) oddi wrth Un Llais Cymru gyda dogfen 'Nodyn Datblygu Ymarfer' sy'n rhoi sylw i faterion y Cod Ymddygiad.

Anfonwyd y ddogfen ymlaen i'r aelodau.

l. Llythyr (10/9/2024) oddi wrth Un Llais Cymru gyda rhestr o sesiynau hyfforddiant bydd ar gael o fis Medi i Ragfyr.

Anfonwyd y ddogfen ymlaen i'r aelodau.

ll. Llythyr (11/9/2024) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybodaeth ar nifer o Gynghorau Cymuned a Thref sydd gannddynt yn aelodau. Yn Gwynedd mae 62 yn aelod a 2 ddim yn aelod.

Anfonwyd y ddogfen ymlaen i'r aelodau.

m. Llythyr (12/9/2024) oddi wrth Clwb Moduro Harlech a'r Cylch Cyf yn rhoi gwybod bydd cerbydau ralio yn cychwyn o Glwb Rygbi Dolgellau am 11.30yh ar Fedi 28/29 2024.

Anfonwyd y ddogfen ymlaen i'r aelodau.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Cais cynllunio NP5/54/461C. Cais ôl-weithredol i leoli fan gwersylla o fewn cwrtil i gydymffurfio ag Amod 2 o gyfeirnod apêl cynllunio Rhif P44/385 a P44/404 dyddiedig 18 Mawrth 1987. 11 Bryniau, Brithdir.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (6/7/2024).

b. Cais cynllunio NP5/54/461D. Cais ôl-weithredol i gadw sied bren. 11 Bryniau, Brithdir.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (6/7/2024).

c. Cais cynllunio NP5/54/136G. Gweler Eitem 5.

ch. Cais cynllunio NP5/54/583A. Ty'r Orsaf, Drws-y-Nant. Mae'r cais wedi ei wrthod gan yr Awdurdod ac mae apêl wedi ei gyflwyno i Weinidogion Cymru ynglŷn â'r cais.

Cefnogwyd y cais gan y Cyngor ar 13/12/2022.

d. Cais cynllunio NP5/54/461D. Cais ôl-weithredol i gadw sied bren. 11 Bryniau, Brithdir.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (6/7/2024).

dd. Llythyr (30/8/2024) oddi wrth y Parc (trwy law Clerc Cyngor Cymuned Ganllwyd) yn rhoi gwybod bydd sesiwn cofnodi enwau tirweddol yn Canolfan Brithdir ar 6 Medi, 2026 rhwng 1.00 a 7.00yh.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

e. Llythyrau (2/9/2024 a 3/9/2-24) oddi wrth Mike a Joy Parton, 10 Bryniau, Brithdir. Maent yn cwestiynu barn y Cyngor yn cefnogi ceisiadau NP5/54/461C a NP5/54/461D (yn 11 Bryniau). Cefnogwyd y ddau gais (gweler uchod). Mae un llythyr yn cynwys llythyr anfonwyd i'r Parc gyda manylion yn cwestiynu y ceisiadau

Anfonwyd y ddau lythyr i'r aelodau.

Penderfynwyd rhoi gwybod i Mike a Joy Parton ein bod wedi cymryd sylw o'u llythyrau a diolch iddynt am y llythyrau.

g. Cais cynllunio NP5/54/476. Newidiadau allanol i'r neuadd bresennol i adleoli mynedfa a chreu ramp mynediad hygyrch. Neuadd Bentref, Llanfachreth.

Penderfynwyd cefnogi'r cais

8. Materion Ariannol

a. Llythyr (4/7/2024) oddi wrth Cerebral Palsy Cymru (Therapi a Chefnogaeth i Blant a'u Teuluoedd). Maent angen cymorth arianol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

b. Anfonwyd cais (4/7/2024) i HMRC am ad-daliad TAW, sef £151.53, am y cyfnod 1/4/2023 i 31/3/2024.

Derbyniwyd yr ad-daliad ar 15/7/2024.

c. Bil (18/7/2024, 22/8/2024 a 18/7/2024 (Rhybudd Terfynol)) am £288.00 oddi wrth Cyngor Gwynedd. Taliad tuag at wasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer cyfrifon 2023/2024.

Penderfynwyd talu'r bil.

ch. Lythyr (14/8/2024) oddi wrth Panel Annibynnol Cymru, Llywodraeth Cymru gyda ffurflen angen gwybod lwfansau cynghorwyr ar gyfer 2023-24.

Anfonwyd y ffurflen iddynt ac fe roddwyd ar ein gwefan (14/8/2024). Anfonwyd y ffurflen wedi i'r aelodau rhoi gwybod i'r Clerc nid oeddynt wedi derbyn lwfansau.

d. Bil (23/8/2024) am £220.00 oddi wrth Archwilio Cymru. Taliad tuag at ffioedd archwilio 2021/2022.

Penderfynwyd talu'r bil.

dd. Llythyr (28/8/2024) oddi wrth Uned Taliadau, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd taliad praesept £6,000 yn ein cyfrif ar 31/8/2024. Taliad olaf hanner blwyddyn.

e. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/6/2024: £1,172.94.
Balans yn y banc ar 29/6/2024: £9,124.61.

f. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/7/2024: £1,174.81.
Balans yn y banc ar 29/7/2024: £9,018.88.

ff. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/8/2024: £1,176.75.
Balans yn y banc ar 29/8/2024: £8,762.42.

9. Archwilio

a. Tynnwyd i lawr (2/7/2024) 'Hysbysiad Archwilio' oddi ar ein gwefan. (Gweler Cofnodion Mehefin 18, 2024, Eitem 10.c.).

b. Anfonwyd (29/7/2024) i Archwilio Cymru y wybodaeth roeddynt ei angen i archwilio materion y Cyngor.

10. Adroddiad Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths

a. Lamp Newydd Rhydymain. Llythyr (16/5/2024) oddi wrth Cyngor Gwynedd yn awgrymu gosod lamp newydd yr un ochr ar lamp bresennol. Pris y gwaith fydd £1,700. Amgáu mae map yn dangos y lleoliad..

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Cafwyd wybod gan Delyth mai y Cyngor Cymuned bydd yn talu am y gwaith.

Penderfynwyd i Delyth gwneud ymoliadau gyda Cyngor Gwynedd pam bod y Cyngor Cymuned fod i dalu am y gwaith.
Penderfynwyd hefyd bydd angen cynnwys y swm yn ein cyllideb 2025/ 26.

b. Cafwyd cwynion bod ceir yn goryrru yn yr ardal a ddim yn cymryd sylw o arwyddion 20mya. Mae Gan Bwyll yr heddlu wedi cael gwybod am yr oryrru. Oes gan yr aelodau syniadau i rwystro goryrru?

c. Mae trafodaethau ynglŷn dyfodol Ysgol Llanfechreth a'r tir ynglwm yn cael eu gwneud rhwng Cyngor Gwynedd a'r Eglwys.

ch. Mae cynlluniau yn cael eu gwneud i sicrhau dyfodol Canolfan Ymwelwyr Coed y Brenin.

d. Penderfynwyd rhoi gwybod i Traffic Cymru, Llywodraeth Cymru mae angen rhoi sylw i drwsio canllaw Pont y Ffatri.

11. Materion yr Aelodau

a. Llun oddi wrth Rhun (10/8/2024) yn dangos damwain car yn mynd trwy ffens a tharro wal Seren Fach, Brithdir.

Anfonwyd y llun i'r aelodau.

b. Llythyr (9/9/2024) oddi wrth Rhun am i'r Cyngor ddiolch i Delyth am ei gwaith a'i hamser i gael arwyddion 40mya wrth Seren Fach. Bydd hyn yn gwella diogelwch y ffordd.
Derbyniwyd gan Rhun lun yn dangos yr arwydd newydd. Anfonwyd y llun i'r aelodau.

c. Mae'r Clerc yn dymuno cynnwys dwy eitem ym mholisi Rheolau Sefydlog y Cyngor:

(iv) Os yw Aelod yn methu mynychu cyfarfod o fewn cyfnod o chwe mis, mae'r Aelod hwnnw/honno yn peidio bod yn aelod o'r cyngor yn syth, oni bai fod y methiant oherwydd rhyw reswm a gymeradwywyd gan y cyngor cyn diwedd y cyfnod o chwe mis.' yn eitem Cyfarfodydd y polisi.

(iv) If a Member fails to attend a meeting during a six-month period, that member automatically ceases to be a member of the council, unless the failure was due to some reason approved by the council before the end of the six-month period.

Bydd hyn yn cydfynd â llythyr (12/10/2024) derbyniwyd gan Un Llais Cymru, sef 'Presenoldeb Aelodau – y Rheol 6 Mis'. Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Rheoli Gwybodaeth
Gweler hefyd reol sefydlog 42.
41. (i) Bydd y Cyngor yn trefnu ac adolygu camau technegol a sefydliadol i gadw'n ddiogel wybodaeth (gan gynnwys data personol) a gedwir ganddo ar bapur ac yn electronaidd. Bydd y cyfryw drefniadau yn cynnwys penderfynu pwy gaiff fynediad at ddata personol ac amgryptio data personol.
(ii) Bydd y Cyngor yn trefnu ac adolygu polisïau ar gyfer cadw a dinistrio'n ddiogel yr holl wybodaeth (gan gynnwys data personol) a gedwir ganddo ar bapur ac yn electronaidd. Bydd polisi cadw'r Cyngor yn cadarnhau am ba gyfnod y caiff gwybodaeth (gan gynnwys data personol) ei chadw neu os nad yw hynny'n bosib y meini prawf a ddefnyddir i bennu'r cyfnod hwn (e.e. Deddf Cyfyngu 1980).
(iii) Ni fydd yr agenda, y papurau sy'n cefnogi'r agenda a chofnodion cyfarfod yn datgelu nac yn tanseilio mewn unrhyw ffordd arall wybodaeth gyfrinachol na data personol heb gyfiawnhad cyfreithiol.
(iv) Ni fydd cynghorwyr, staff, contractwyr ac asiantwyr y Cyngor yn datgelu gwybodaeth gyfrinachol na data personol heb gyfiawnhad cyfreithiol.

Mae'r eitem wedi cael ei gynnwys yn y Saesneg.

Penderfynwyd cynwys yr eitemau ym mholisi Rheolau Sefydlog.

ch. Penderfynwyd derbyn ymddiswyddiad W. Barry Jones o'r Cyngor. Roedd yn Gynghorwr ers mis Hydref 2009.

Llofnod: Dyddiad: